Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** | | **INVESTMENTS AND CONTRACTS COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 1 TACHWEDD 2016 at 11.30 o'r gloch y.b.** | | **TUESDAY, 1 NOVEMBER, 2016 at 11.30 a.m.** |
| **SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chairman of the Trust** | **T V Hughes** |
| **Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chairman of the Trust** | **T Ll Hughes** |

**Ann Griffith**
**K P Hughes**
**T Ll Hughes**
**G O Jones**
**H Eifion Jones**
**R Ll Jones**
**A M Jones**
**Alun W Mummery**
**Nicola Roberts**
**Dafydd Rhys Thomas**

**R H A G L E N**

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd.

2 **ETHOLIAD IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 26 Tachwedd, 2015.

4 **RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwyno adroddiad gan HSBC Global Asset Management (UK) Limited.
**(ADRODDIAD I'W DOSBARTHU YN Y CYFARFOD)**

5 **DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MAWR** (Tudalennau 3 - 4)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cyng. T Ll Hughes, K P Hughes, G.O. Jones, H. Eifion Jones, R Ll Jones, Alun W Mummery |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cyng. A M Jones a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Rupert Cecil, Cyfarwyddwr, Elusennau – HSBC Global Asset Management (UK) Limited |

---

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfnod Mr. T.Ll. Hughes yn yr ysbyty yn ddiweddar a nododd ei fod yn falch o'i weld yn bresennol yn y cyfarfod.

### 1 ETHOL CADEIRYDD

Ailetholwyd Mr. H. Eifion Jones yn Gadeirydd.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Ailetholwyd G.O. Jones yn Is-gadeirydd.

### 3 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 4 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2015 yn gywir.

**Yn codi o'r cofnodion**

**Contract i Wasanaethau Oedolion**

Adroddwyd y bydd adroddiad ar y contract ar gyfer Gwasanaethau Archwilio yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

### 5 RHEOLI BUDDSODDIADAU

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Asset Management (UK) Limited hyd at fis Tachwedd 2015.

Adroddodd y Rheolwr Buddsoddi mai amcan y portffolio yw tyfu'r cyfalaf yn unol â chwyddiant a chreu digon o incwm i gwrdd â gofynion llif arian sy'n cael eu cytuno'n flynyddol gyda'r ymddiriedolwyr. Y strategaeth y cytunwyd arni yw mynd tu hwnt i'r meincnod sefydlog o 1.5% a gytunwyd bob blwyddyn dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Roedd gwerth y gronfa ar 17 Tachwedd 2015 yn £16,930,549. Yn y cyfarfod heddiw mae gwerth y gronfa wedi cynyddu i £17,100,000.

Eglurwyd perfformiad y portffolio a'r perfformiad tymor hir yn fanwl i'r Pwyllgor. Nodwyd fod portffolio'r Ymddiriedolaeth wedi symud i 'Gronfa Twf ac Incwm' erbyn hyn ar ôl i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gefnogi'r symudiad yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2015.

Cyfeiriodd y Rheolwr Buddsoddi at werthiant Tir Rhosgoch yn ddiweddar am gyfanswm o £3m. Cafwyd trafodaethau ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y buddsoddiad. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y dylid rhoi'r £3m o werthiant Tir Rhosgoch gyda phortffolio presennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Diolch i'r cynrychiolydd o HSBC am fynychu'r cyfarfod, a derbyn yr adroddiad;**

- **Argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn bod y £3m o werthiant Tir Rhosgoch yn cael ei roi gyda phortffolio presennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**Mr. H. Eifion Jones**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** |
| **DYDDIAD** | **1 TACHWEDD 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Dyrannu cyllid ar gyfer Grantiau Mawr** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cytuno ar swm i'w ddyrannu ar gyfer grantiau mwy yn 2017.** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Trysorydd – Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **GWEITHREDU** | **Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Reolwyr Buddsoddi'r Ymddiriedolaeth, cytuno ar swm a ddefnyddir i gyllido grantiau mawr a ddyfernir gan yr Ymddiriedolaeth yn 2017.** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1.** Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol ddyfarnu grantiau mawr yn 2014. Ni ddilynwyd unrhyw broses ffurfiol i wahodd ceisiadau ac fe ystyriwyd pob achos yn unigol. Mae dyfarnu'r grantiau cychwynnol wedi arwain at fwy o sefydliadau yn dod ymlaen i ofyn am arian ar gyfer prosiectau penodol ac arian i helpu gyda chostau rhedeg.

**1.2.** Wrth i'r gronfa barhau i dyfu mae'n cynhyrchu incwm ar ffurf llog blynyddol a difidendau ond hefyd mae gwerth cyfalaf y gronfa wedi tyfu dros amser. 'Roedd Aelodau'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i ddefnyddio rhywfaint o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y gronfa i ddarparu cyllid ar gyfer rhoi grantiau mwy, a hynny ar sail fwy ffurfiol.

**1.3.** Yn gynnar yn 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth neilltuo swm o £200,000 a oedd yn cyfateb i 20% o'r twf yng ngwerth y cyfalaf yn y flwyddyn er mwyn ariannu grantiau yn 2016.

**1.4.** Yn dilyn proses o wneud ceisiadau, derbyniodd 4 sefydliad arian grant yn 2016.

**1.5.** Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth ddyrannu cyllid ar gyfer grantiau mwy, a dirprwyodd y penderfyniad ynghylch maint y swm hwnnw i'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau.

**1.6.** Yn dilyn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, gweithredir proses ymgeisio ffurfiol i wahodd sefydliadau i gyflwyno ceisiadau. Y bwriad yw y bydd y broses yn agored i sefydliadau gyflwyno ceisiadau rhwng mis Tachwedd 2016 ac Ionawr 2017, gyda'r penderfyniad ar ba sefydliadau fydd yn derbyn arian yn cael ei wneud ym mis Chwefror 2017.

## 2. DYRANNU CYLLID

**2.1.** Ym mis Chwefror 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth neilltuo 20% o'r twf yng ngwerth cyfalaf y gronfa i ariannu'r grantiau mwy. O ystyried gwerth y twf, 'roedd y ganran hon yn darparu cronfa resymol heb erydu gwerth y gronfa fuddsoddi yn sylweddol.

**2.2** Dylid nodi bod risg bob amser y gall gwerth cyfalaf y gronfa ostwng ac y gallai dyrannu swm rhy uchel, mewn cyfnod lle mae gwerth cyfalaf y gronfa yn tyfu, gael effaith andwyol ar yr elw a geir o'r buddsoddiadau yn y dyfodol os bydd gwerth cyfalaf y gronfa yn dechrau gostwng yn sydyn.

**2.3** Rhaid i'r Pwyllgor felly gymryd i ystyriaeth y cyngor a roddir gan y Rheolwr Buddsoddi cyn penderfynu ar faint y swm i'w ddyrannu, gan sicrhau bod y gronfa yn ddigon mawr i alluogi'r Ymddiriedolaeth i helpu cymaint o sefydliadau â phosibl heb beryglu'r lefelau incwm a gynhyrchir gan y gronfa yn y dyfodol. Bydd y Rheolwr Buddsoddi ar gael yn y cyfarfod i roi cyngor priodol.

## 3 Y CAMAU SYDD ANGEN EU CYMRYD

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried penderfynu ar y swm i'w ddyrannu ar gyfer grantiau mawr, a hynny'n seiliedig ar y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan y Rheolwr Buddsoddi.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **26 HYDREF 2016**